



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hyb Marchnata Twristiaeth De Cymru



Beth yw nodau'r prosiect?

Nod Hyb Marchnata Twristiaeth De Cymru yw gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sy'n ymwneud â'r economi ymwelwyr ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu a rhannu cynnwys digidol sy'n hyrwyddo amrywiaeth o gynhyrchion i farchnadoedd y DU a thramor, gan gynnwys teithiau hamdden, digwyddiadau busnes ac ymgyrchoedd i ddefnyddwyr.

Sut y cyflawnwyd y nodau hyn?

Roedd gwefan y cyrchfan rhyngwladol, cynnwys, ymgyrch teithiau hamdden ac ymgyrch twristiaeth busnes yn rhan graidd o'r cynllun gweithredu. Gwefan y cyrchfan rhyngwladol – Cafodd gwefan De Cymru ei hailwampio.
Cynnwys – Crëwyd cynnwys

cynnwys digidol, gan gynnwys cynhyrchu data, lluniau a ffilmiau.

Ymgyrch teithiau hamdden – Gwnaethom weithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu amserlenni teithio a theithiau ymgyfarwyddo, gan ganolbwyntio ar themâu a llwybrau sy'n gysylltiedig â Ffordd Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal y Digwyddiad Arddangos i Brynwyr Grŵp blynyddol mewn ffordd gonfensiynol cyn creu fersiynau ar-lein o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Ymgyrch twristiaeth busnes – Er ei fod yn rhan allweddol o'r cynllun gwreiddiol, y sector hwn a ddiodeffodd waethaf yn ystod pandemig COVID-19 ac felly, ychydig iawn o waith a wnaed.

Ymgyrchoedd i ddefnyddwyr – Cynhaliwyd ymgyrchoedd

marchnata digidol wedi'u harwain gan gynhyrchion yn unol â chyfyngiadau COVID-19. Ymhlith y rhain roedd ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, ffilmiau a lluniau i werthu'r syniad o ymweld â De Cymru a'i darganfod ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi.

Pwy oedd yn rhan o'r prosiect?

Partneriaid y prosiect oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Sir Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy a Chymdeithas Twristiaeth Torfaen, a'r nod oedd gweithio gydag amrywiaeth eang o fusnesau twristiaeth a sefydliadau cysylltiedig yn y

rhanbarth.

Sut y cafodd y prosiect ei ariannu?

Ariannwyd y prosiect gan y partneriaid (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Sir Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy a Chymdeithas Twristiaeth Torfaen) ynghyd â chyllid gan y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol a chyllid masnach cyfatebol.

Gan bwy y cawsoch help a chyngor?

Gwnaethom weithio'n agos gyda Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gweithgareddau'n unol â chyfyngiadau COVID-19 a'u bod yn cefnogi gweithgareddau eraill a oedd yn cael eu cynnal.

Beth fu'r prif gyflawniad hyd yma?

Y prif gyflawniadau oedd bod yn hyblyg ac addasu cynlluniau i ddefnyddio gwahanol sianeli a chyfryngau i gyflawni amcanion a fyddai fel arfer yn cael eu cyflawni wyneb yn wyneb.

Enghraifft o hyn oedd y digwyddiad cwrdd â'r prynwr a'r daith ymgysylltu flynyddol. Mae hyn fel arfer yn golygu gwahodd prynwyr teithiau

hamdden o bob cwr o'r DU i Dde Cymru am ddeuddydd neu dridiau, trefnu sioe fasnach lle y gall prynwyr gwrdd â chynrychiolwyr gwestai ac atyniadau i drafod a threfnu teithiau ar gyfer y dyfodol, a mynd â'r prynwyr ar daith o amgylch yr ardal, gan ymweld ag atyniadau newydd a gwell. Yn wir, dyma a ddigwyddodd ym mis Mawrth 2019, yn union cyn y cyfyngiadau symud.

Oherwydd COVID-19, ni fu modd gwneud hyn yn yr un ffordd yn 2020. Er mwyn tynnu sylw at yr ardal, trefnwyd digwyddiad cwrdd â'r prynwr rhithwir, a chyflwynwyd tua 40 o gynhyrchion o bob cwr o'r rhanbarth i 45 o brynwyr ar hyd a lled y DU. Rhoddwyd cyflwyniad 10 munud ar bob cynnyrch er mwyn dangos yr hyn yr oedd pob un yn ei gynnig, prisiau, ac ati – cyn croesawu cwestiynau.

I gefnogi atyniadau a gwestai'r rhanbarth, cynhaliwyd ymarferion i fireinio cyflwyniadau a mynd i'r afael â materion technegol. Ategwyd eu gwybodaeth am y sector teithiau hamdden hefyd drwy lunio [pecyn Cymorth](#).

Wrth baratoi ar gyfer y weminar, cysylltwyd â busnesau teithiau hamdden ledled y DU i ofyn am eu barn am y sector a'i adferiad – bu hyn yn bwysig iawn wrth gynllunio'r [weminar](#).

Er mwyn ysbrydoli prynwyr teithiau hamdden, crëwyd fideo o gyfleoedd grŵp er mwyn rhoi

blas ar gynhyrchion newydd a rhai sefydledig – bu hyn yn her oherwydd ffilmwyd y rhan fwyaf o'r fideo pan oedd atyniadau wedi'u cau. Lansiodd y [fideo](#) yn ystod y weminar ac mae ar gael i fusnesau teithiau hamdden ei ddefnyddio i werthu'r ardal.

Hefyd, anfonwyd amrywiaeth o gynhyrchion lleol at bob prynwr a gofrestrodd ar gyfer y weminar, er mwyn ychwanegu dimensiwn arall at y digwyddiad, megis gin lleol, cacennau cri, medd, ac ati.

Cafodd y [weminar](#) ei recordio ac mae ar gael i'w gwyllo ar y wefan. Yn dilyn y weminar, mae amrywiaeth o ymweliadau ymgysylltu wedi'u trefnu a deallir bod teithiau wedi'u trefnu, er ei bod yn anodd meintoli'r canlyniadau.

A'r her fwyaf?

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, "caewyd" y sector twristiaeth a bu'n rhaid cynnal gweithgareddau hyrwyddo yn unol â'r cyfyngiadau cyfreithiol. Felly, bu'n rhaid newid o hyrwyddo i ysbrydoli ar gyfer teithiau yn y dyfodol. Roedd llawer o'r gwaith hwn yn ymwneud â chreu asedau megis ffilmiau a ffotograffiaeth (at ddefnydd cyffredinol ac ar gyfer cwmnïau teithiau hamdden) a phostio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'r hyn y gellid ei wneud yn lleol (yn unol â chyfyngiadau COVID-19), gan adeiladu ar weithgareddau sianeli cyfryngau cymdeithasol lleol.

Penodwyd asiantaeth i ymgymryd â'r ymgyrchoedd i ddefnyddwyr, ond bu'n amhosibl cyflawni'r cynlluniau yn sgil COVID-19, felly aethpwyd ati i drafod [cynlluniau newydd](#). Roedd y rhain yn defnyddio cystadlaethau a chyfryngau cymdeithasol i rannu syniadau ymhellach am bethau i'w gwneud/lleoedd i ymweld â nhw yn Ne Cymru. Crëwyd ffilmiau newydd i hyrwyddo'r ardal – yn ochr â ffotograffiaeth.

Unrhyw awgrymiadau i'r rheini sy'n sefydlu prosiectau tebyg?

Cryfder y prosiect hwn yw'r bartneriaeth. Mae nodi amcanion cyffredin ac achub ar y cyfleoedd a gyflwynir drwy gydweithio yn hytrach na chystadlu, yn allweddol. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn cydweithio ers dros ddeng mlynedd, ac er bod ei haelodaeth a'i nodau/amcanion wedi newid droeon, daw ei chryfder drwy wireddu cyfleoedd a llwyddiannau a fu, a'r rhai sydd i ddod, gan weithio ar y cyd.

Mae creu partneriaeth gref a ffordd gref o weithio yn rhan annatod o'r gwaith o greu prosiect llwyddiannus fel hwn, yn enwedig yn wyneb anawsterau mawr fel COVID-19 a'r anallu i roi cynlluniau cychwynol ar waith.

Beth nesaf ar gyfer eich prosiect?

Mae partneriaeth Twristiaeth De Cymru yn parhau a chaiff ei chynnal drwy gyllid gan y

sefydliadau partner. O ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, mae'r ffocws ar Dwristiaeth Teithiau Masnach a marchnata i ddefnyddwyr, yn enwedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan. Mae'r holl bartneriaid yn cydnabod nad oes gan ymwelwyr fawr ddim gwybodaeth am ffiniau awdurdodau lleol, os o gwbl, a thrwy gydweithio, bod cyfleoedd i annog ymwelwyr i aros am gyfnodau hwy ac i gynnyddu gwariant ymwelwyr, er budd yr economi dwristiaeth gyffredinol, sy'n bwysicach nag erioed wrth inni ddod allan o gyfyngiadau COVID-19.

